# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00-13.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

13.30

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

13.30-13.35 (Tudalen 1)

**LJC(6)-12-21 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**2.1 SL(6)066 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021**

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

13.35-13.40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)071 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

(Tudalennau 2 - 7)

**LJC(6)-12-21 - Papur 1** - Adroddiad drafft

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**LJC(6)-12-21 - Papur 2** – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 29 Hydref 2021

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft

**3.2 SL(6)067 - Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 8 – 12)

**LJC(6)-12-21 - Papur 4** – Adroddiad drafft

**LJC(6)-12-21 - Papur 5** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 26 Hydref 2021

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**3.3 SL(6)069 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021**

(Tudalennau 13 – 19)

**LJC(6)-12-21 - Papur 6** – Adroddiad drafft

**LJC(6)-12-21 - Papur 7** – Llythyr gan y Prif Weinidog 29 Hydref 2021

**LJC(6)-12-21 - Papur 8** – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 29 Hydref 2021

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**3.4 SL(6)070 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2021**

(Tudalennau 20 – 22)

**LJC(6)-12-21 - Papur 9** – Adroddiad drafft

Rheoliadau

[Memorandwm Esboniadol]

## 4 Papurau i'w nodi

13.40-13.45

### 4.1 Gohebiaeth gyda'r Arglwydd Thomas o Gwmgiedd: Sesiwn dystiolaeth ar adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

(Tudalennau 23 - 25)

**LJC(6)-12-21 – Papur 10** – Llythyr gan yr Arglwydd Thomas, 2 Tachwedd 2021

**LJC(6)-12-21 – Papur 11** – Llythyr at yr Arglwydd Thomas, 26 Hydref 2021

### 4.2 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pwer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru

(Tudalennau 26 - 27)

**LJC(6)-12-21 – Papur 12** – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 1 Tachwedd 2021

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

13.45

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) – trafod yr adroddiad drafft

13.45-14.00 (Tudalennau 28 - 41)

**LJC(6)-12-21 – Papur 13** – Adroddiad drafft

**LJC(6)-12-21 – Papur 14** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2021

**LJC(6)-12-21 – Papur 15** – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 19 Hydref 2021

## 7 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol – papur briffio

14.00-14.15 (Tudalennau 42 - 73)

**LJC(6)-12-21 – Papur 16** – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

**LJC(6)-12-21 – Papur 17** – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 29 Hydref 2021

## 8 Cytundebau rhyngwladol a drafodwyd ar 1 Tachwedd 2021 – trafod yr adroddiad drafft

14.15-14.20 (Tudalennau 74 - 78)

**LJC(6)-12-21 – Papur 18** – Adroddiad drafft

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Tachwedd 2021

## SL(6)066 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol, wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol (ALT) am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y perthynas hawl i olynu'r denantiaeth. Mae un o'r profion i sefydlu hawl i olynu yn golygu bodloni'r ALT nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn rhywle arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r perthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth awtomatig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi ffigurau ar gyfer incwm amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amrywiol weithgareddau ffermio, ac a ddefnyddir i benderfynu a yw'r tir o dan sylw yn 'uned fasnachol o dir amaethyddol' ai peidio.

Y Gorchymyn sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2019 a 11 Medi 2020. Bydd y Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2020 a 11 Medi 2021.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Daliadau Amaethyddol 1986
**Fe'i gwnaed ar:** 22 Hydref 2021
**Fe'i gosodwyd ar:** 26 Hydref 2021
**Yn dod i rym ar**: 01 Rhagfyr 2021

Eitem 3.1

# SL(6)071 - The Health Protection (Coronavirus, Restrictions, International Travel, Notification and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2021

## Background and Purpose

The Health Protection (Coronavirus, Restrictions, International Travel, Notification and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2021 ("the Regulations") are made in reliance on the powers in sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984. They amend the:

- Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 ("the International Travel Regulations");
- Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 ("the Restriction Regulations);
- Health Protection (Notification) (Wales) Regulations 2010 ("the Notification Regulations", and
- Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 ("the Public Health Information Regulations").

Part 2 of the Regulations amends the International Travel Regulations. The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include requirements for booking and undertaking coronavirus tests in accordance with those Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. The International Travel Regulations also make specific provisions for "regulation 2A travellers"; including individuals who have been fully vaccinated in prescribed countries and territories.

Regulation 3 of the Regulations amends regulation 2A (exemptions for vaccinated travellers and others) of the International Travel Regulations, extending the recognition of vaccinations to further countries and territories.

Regulation 4 amends regulation 6AB (requirement to book and undertake tests) of the International Travel Regulations so as to enable regulation 2A travellers to use lateral flow device ("LFD") tests for the purposes of the Regulations.

Regulation 6 contains provision requiring a person to undertake a confirmatory polymerase chain reaction ("PCR") test where they receive a positive test result on a LFD test, as well as containing provision on isolation requirements following positive results.

Regulation 8 introduces an offence for failing to undertake a confirmatory PCR test.

Regulations 5, 7 to 9, and 11 make further provision in relation to the introduction of LFD testing.

Regulation 10 amends Schedule 1 to the International Travel Regulations to remove the requirement for passengers to list their seat numbers on Passenger Locator Forms ("PLF").

Non-exempt persons are prohibited from entering Wales where they have been in a country or territory listed in Schedule 3A (countries and territories subject to additional measures) to the International Travel Regulations within the last 10 days of arrival, pursuant to regulation 12E (additional measures applicable to persons travelling from a country or territory listed in Schedule 3A) of the International Travel Regulations.

Regulation 12 of the Regulations amends Schedule 3A to remove various countries from the list of countries or territories to which regulation 12E applies.

Part 3 of the Regulations amends the Notification Regulations, in consequence of the introduction of LFD testing in the International Travel Regulations to ensure Public Health Wales is notified of test results.

The Public Health Information Regulations impose requirements on operators of international passenger services coming from outside the common travel area to an airport, heliport or seaport in Wales to provide passengers with specified public health information. Part 4 of the Regulations amends the Public Health Information Regulations, in consequence of the PLF amendments made to the International Travel Regulations at regulation 10.

Part 5 of the Regulations amends regulation 16A(12) of the Restrictions Regulations, further extending the list of countries and territories in that paragraph so that evidence of vaccination in those countries with vaccines authorised in the United Kingdom is also acceptable for the purposes of what is commonly known as the COVID-pass. The amendment is required to maintain consistency with regulation 2A of the International Travel Regulations.

## Procedure

Negative.

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd.

The Senedd can annul the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

## Technical Scrutiny

The following point is identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements**

The first line of regulation 3 incorrectly refers to "Regulation 12" when, in fact, the correct reference should be 'Regulation 2A'.

## Merits Scrutiny

The following four points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

We note the breach of the 21-day rule (i.e. the rule that 21 days should pass between the date a negative instrument is laid before the Senedd and the date the instrument comes into force), and the explanation for the breach provided by Eluned Morgan MS, Minister for Health and Social Services, in a letter to the Llywydd dated 29 October 2021.

In particular, we note what the letter says regarding why these regulations breach the 21 day rule:

> *"There Not adhering to the 21-day convention allows these Regulations to come into force at the earliest opportunity and continue the four nation approach to international travel; in view of the changing evidence on risk in relation to this disease this is considered necessary and justifiable in this case."*

We note also the following in the Expandatory Memorandum:

> *"This is necessary owing to the risk posed in relation to coronavirus and in particular variant strains of the same, from passengers travelling to the UK."*

**2. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues or public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note the Welsh Government's justification for any potential interference with human rights. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

> *"The amendments contained in these Regulations do not change the engagement under the International Travel Regulations of individual rights under the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights; the Government considers that they are justified for the purpose of preventing the spreading of infectious diseases and/or the interference is permitted on the basis that it is in pursuit of a legitimate aim, namely of protecting public health, and are proportionate.*
>
> *The Government considers that … the Public Health Information Regulations do not engage any of the individual rights under the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights. And, to the extent that any such rights may*

*be engaged, the Government considers that the interference is minimal and can be justified as being necessary and proportionate to achieve a legitimate aim.  The amendments to the … the Public Health Information Regulations made by these Regulations do not change the engagement of individual rights."*

**3. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues or public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note that there has been no formal consultation on these Regulations. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

*"Given the serious and imminent threat arising from coronavirus and the need for an urgent public health response, there has been no public consultation in relation to these Regulations."*

**4. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues or public policy likely to be of interest to the Senedd.**

The section in the Explanatory Memorandum dealing with the European Convention on Human Rights refers to the "Operator Liability Regulations". The Regulations do not amend the Operator Liability Regulations, and reference to them in this way has the potential to cause confusion about the purpose and effect of the Regulations.

## Welsh Government response

A Welsh Government response is required in relation to the Technical reporting point and the fourth Merits reporting point.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**4 November 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Hydref 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd un rhan o'r Offeryn Statudol hwn yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 31 Hydref 2021 ac y bydd gweddill y newidiadau yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 1 Tachwedd 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"); Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 ("y Rheoliadau Hysbysu"); Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Diwygio'r gofyniad ar gyfer profion ar ôl cyrraedd er mwyn cynnwys profion dyfais llif unffordd yn ogystal â phrofion PCR;
- Tynnu Colombia, Ecuador, Gweriniaeth Dominica, Haiti, Panama, Periw a Venezuela oddi ar y rhestr goch;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Ychwanegu'r gwledydd a ganlyn at y rhestr o wledydd perthnasol sydd â system gydnabyddedig o ardystio brechiadau -

  Angola; Anguilla;;Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus; Yr Ariannin; Armenia; Azerbaijan; Belize; Bermuda; Botswana; Cambodia; Costa Rica; De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De;;Djibouti; Eswatini; Gibraltar; Guernsey; Guyana; Honduras; Jersey; Lesotho; Libanus; Madagascar; Mauritius; Mongolia; Montserrat; Nepal; Panama; Periw; Rwanda; Seychelles; Sierra Leone; Sri Lanka; St Helena, Ascension a Tristan da Cunha; Suriname; Tanzania; Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Tiriogaethau Meddianedig Palesteina; Trinidad a Tobago; Tunisia; Uganda; Uruguay; Ynys Manaw; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd Prydeinig y Wyryf a Ynysoedd Turks a Caicos.

- Dileu'r gofyniad am rifau sedd o'r gofynion gwybodaeth am deithwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Hysbysu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr profion preifat hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion dyfais llif unffordd a ddarperir o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID. Mae angen y diwygiad er mwyn cynnal cysondeb â'r diwygiadau cydnabod brechlynnau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)067 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 (“y Rheoliadau”) yn cael eu gwneud o dan baragraff 4(2) a pharagraff 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol a gynhelir rhwng dyfodiad y Rheoliadau hyn i rym a 28 Mawrth 2022.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn estyn y sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys, neu newid eu dirprwy enwebedig, ar gyfer yr is-etholiadau hyn. Mae’r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â'r coronafeirws yn ogystal â chaniatáu i'r rhai sydd â phleidlais ddirprwy bresennol newid eu dirprwy enwebedig os bydd yn rhaid i'r unigolyn enwebedig hunanynysu.

Ar hyn o bryd, mae cyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer senarios lle y gallai fod angen i etholwyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys oherwydd eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â’r coronafeirws. Fodd bynnag, ni fydd y rheol bresennol yn berthnasol i is-etholiadau sy'n cael eu cynnal ar 5 Tachwedd 2021 neu ar ôl hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am nifer fach o is-etholiadau y trefnwyd eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn, ac felly mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru estyn y rheol bresennol ar gyfer is-etholiadau a gynhelir yn y dyfodol agos, pan fydd y coronafeirws yn debygol o fod ar led yn ein cymunedau o hyd.

Mae cyfyngiad amser ar y darpariaethau a byddant yn peidio â chael effaith ar ôl 28 Mawrth 2022.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Due to the emergency nature of these Regulations the Welsh Government did not undertake a public consultation before the Regulations came into force. However, views were sought and taken into consideration on the first set of Regulations - The Representation of the People (Amendment) (Wales) (Coronavirus) Regulations 2021 - which this statutory instrument extends to 28th March 2022. The Electoral Commission have been made aware of the intention to extend these provisions to support the democratic rights of those wishing to participate in local government by-elections."*

Nodwn hefyd yr esboniad canlynol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr dyddiedig 26 Hydref 2021 at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

> *"O ystyried y nifer cynyddol o achosion Covid-19 ar hyn o bryd, mae wedi dod yn angenrheidiol i ni ymestyn y rheol er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n hunan-ynysu ar, ac ar ôl, 5 Tachwedd 2021 gymryd rhan mewn unrhyw isetholiad llywodraeth leol a drefnwyd.*
>
> *Mae fy swyddogion wedi cael gwybod yn ddiweddar am dri isetholiad, a drefnwyd ar gyfer 11, 18 a 25 Tachwedd. Er mwyn i'r darpariaethau hyn fod ar waith ar gyfer y cyntaf o'r isetholiadau hynny, gofynnaf ichi ystyried y rheoliadau ar frys ac adrodd arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2021."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gwallau ac mae rhywfaint o'r manylion sydd yn y Memorandwm Esboniadol Saesneg ar goll. Mae anghysondebau o'r fath yn codi ym mharagraffau 2.1 (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad), 3.1 (Y cefndir deddfwriaethol) a 5.1 (Ymgynghori).

Mae paragraff 2.1 o’r fersiwn Saesneg yn darparu: “Subject to the will of the Senedd [the Regulations] will come into force on 10 November 2021”. Mae’r fersiwn Gymraeg yn defnyddio dyddiad anghywir ac nid yw'n cyfeirio at rôl y Senedd. Mae'r testun yn y fersiwn Gymraeg yn dweud: “Daw'r Rheoliadau i rym ar 10 Tachwedd 2022”.

Mae paragraff 3.1 yn cyfeirio at y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (“Deddf 2000”). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 4(2) a pharagraff 6(7) ac **(8)** o Atodlen 4 i Ddeddf 2000. Mae cromfachau ar goll yn y fersiwn Gymraeg, sy'n rhoi'r argraff bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan baragraff 8 o Atodlen 4, yn hytrach na pharagraff 6(8) o Atodlen 4. Nid yw'r gwall hwn yn digwydd yn y fersiwn Saesneg.

Mae paragraff 5.1 yn y fersiwn Gymraeg yn hepgor gwybodaeth am y Comisiwn Etholiadol sydd yn y fersiwn Saesneg.

Hefyd, mae’r fersiwn Gymraeg yn camsillafu enw'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Er nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhan o'r gyfraith, gall y gwallau hyn gyda'i gilydd ddrysu'r dinesydd ynghylch effaith y Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â’r ail bwynt adrodd rinweddau yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**2 Tachwedd 2021**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

26 Hydref 2021

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Coronafeirws) 2001 i ymestyn rheol a gyflwynwyd yn gynharach eleni sy'n darparu etholwyr mewn isetholiad llywodraeth leol, nad ydynt yn gallu mynychu gorsaf bleidleisio yn bersonol, o ganlyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â coronafeirws, i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy frys heb dystio meddygol. Mae hyn yn golygu bod y bobl hynny sydd eu hangen i hunan-ynysu yn ystod y dyddiau cyn, neu ddiwrnod yr etholiad, yn dal i allu arfer eu hawliau democrataidd tra'n hunan-ynysu.

Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ni fydd y rheol yn gymwys ar, neu ar ôl, 5 Tachwedd 2021, sef y dyddiad olaf y gellir rhoi hysbysiad o isetholiad llywodraeth leol. Fodd bynnag, gall yr isetholiad ei hun cael ei chynnal ar ôl y dyddiad hwn ac nid yw'r rheoliadau presennol yn caniatáu i'r bleidlais ddirprwy nad yw'n cael ei dystio'n feddygol fod ar gael i unrhyw un sy'n hunan-ynysu ar ôl 5 Tachwedd.

O ystyried y nifer cynyddol o achosion Covid-19 ar hyn o bryd, mae wedi dod yn angenrheidiol i ni ymestyn y rheol er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n hunan-ynysu ar, ac ar ôl, 5 Tachwedd 2021 gymryd rhan mewn unrhyw isetholiad llywodraeth leol a drefnwyd.

Mae fy swyddogion wedi cael gwybod yn ddiweddar am dri isetholiad, a drefnwyd ar gyfer 11, 18 a 25 Tachwedd. Er mwyn i'r darpariaethau hyn fod ar waith ar gyfer y cyntaf o'r isetholiadau hynny, gofynnaf ichi ystyried y rheoliadau ar frys ac adrodd arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor ymlaen llaw am eu cymorth wrth sicrhau'r gefnogaeth barhaus hon i bleidleiswyr sydd yn hunan-ynysu ac sydd yn dymuno arfer eu hawliau democrataidd.

Yn gywir,

Annwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

# SL(6)069 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021

## Cefndir a Diben

O 11 Hydref ymlaen, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") wedi ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd penodol gymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod oedolion (ac mae hyn yn golygu person sy'n 18 oed neu'n hŷn) ond yn bresennol os oes ganddynt yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel "Pàs COVID".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy ychwanegu sinemâu, neuaddau cyngerdd a theatrau at y rhestr o fangreoedd lle mae Pàs COVID yn ofynnol. Daw'r newidiadau i rym o 7.00 a.m ar 15 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*

*Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus prydlon, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn. Nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol ynglŷn ag asesiad effaith cryno:

*"Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.. Fodd bynnag, paratowyd ac ystyriwyd asesiad effaith cryno fel rhan o'r broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer y coronafeirws er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnaed. Caiff yr asesiad effaith cryno (sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol) ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Tachwedd 2021**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Hydref 2021

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021**

Rwyf wedi gosod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021 drafft a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Bydd y Rheoliadau'n destun y weithdrefn gadarnhaol ddrafft a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y Rheoliadau yn unol ag amserlen gyflym ac yn adrodd arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **29 Hydref 2021** |
| **GAN** | **Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o'r cyfyngiadau coronafeirws bob tair wythnos. Roedd yr adolygiad diweddaraf i fod i gael ei gynnal erbyn 28 Hydref.

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol. Mae nifer yr achosion o'r coronafeirws wedi codi'n sydyn ers yr adolygiad tair wythnos diwethaf o'r rheoliadau. Maent wedi cyrraedd eu pwynt uchaf ers dechrau'r pandemig, gyda mwy na 700 o achosion fesul 100,000 o bobl.

Mae brechu wedi helpu i wanhau'r cysylltiad rhwng heintiadau, salwch difrifol a derbyn pobl i'r ysbyty ond nid yw wedi torri'r cysylltiad. Yn anffodus, mae'r cyfraddau uchel parhaus presennol o heintiadau yn y gymuned yn troi'n niferoedd uwch o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19. Mae hyn yn erbyn cefndir o bwysau yn sgil achosion brys ac argyfwng nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n debyg i'r hyn a brofwyd fel arfer yn ystod cyfnodau anoddaf y gaeaf. Yn anffodus, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Os bydd y cyfraddau uchel hyn o heintiadau a throsglwyddiadau yn y gymuned yn parhau, rydym yn debygol o weld mwy o bwysau sy'n gysylltiedig â'r pandemig ar y GIG a mwy o bobl sydd angen gofal yn yr ysbyty.

Bydd Cymru'n parhau i fod ar lefel rhybudd sero dros y tair wythnos nesaf. Ond dim ond drwy gryfhau'r mesurau diogelu sydd gennym ar waith y gallwn wneud hynny. Y gobaith yw y bydd y mesurau hyn, ynghyd â chynyddu'r nifer o bobl sydd wedi cael eu brechu, yn helpu i leihau'r lefelau uchel o drosglwyddiadau yn y gymuned yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd ac yn diogelu iechyd pobl.

Os bydd cyfraddau achosion yn parhau i godi dros y cylch tair wythnos hwn, bydd yn rhaid i Weinidogion ystyried codi'r lefel rhybudd yn yr adolygiad nesaf ac ailgyflwyno cyfyngiadau.

Brechlynnau yw ein hamddiffyniad gorau o hyd yn erbyn y feirws. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ynghylch y bwlch gorau rhwng ail ddos y brechlyn a'r brechlyn atgyfnerthu.

Er mwyn cryfhau mesurau diogelu ar lefel rhybudd sero, rydym yn bwriadu ymestyn y defnydd o'r Pàs COVID, gan ei gwneud yn ofynnol i gael mynediad i sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd o 15 Tachwedd ymlaen, yn amodol ar ddadl a phleidlais yn y Senedd. Mae'r rhain i gyd yn lleoliadau lle mae nifer fawr o bobl yn ymgynnull dan do am gyfnodau o amser, yn aml heb orchuddion wyneb.

Os na fydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn gwella, bydd yr adolygiad nesaf o'r rheoliadau coronafeirws yn ystyried ehangu'r Pàs COVID ymhellach i gynnwys mwy o leoliadau lletygarwch.

Bydd y canllawiau hunanynysu yn cael eu newid. Rhaid i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phlant rhwng pump a 17 oed hunanynysu os oes gan rywun ar eu haelwyd symptomau neu ganlyniad prawf positif am COVID-19 nes eu bod wedi cael canlyniad prawf PCR negatif. Os nad ydynt wedi cael eu brechu, rhaid iddynt hunanynysu am 10 diwrnod.

Mae'r newid hwn yn cael ei wneud i adlewyrchu tystiolaeth, er bod cael eich brechu'n llawn yn lleihau'r risg o gael eich heintio, fod siawns y gallai un o bob pedwar person sydd wedi'i frechu'n llawn ddal COVID-19 gan rywun rydych yn byw gydag ef.

Mae'n hanfodol bod pob busnes a sefydliad yn deall natur a phwysigrwydd mesurau sylfaenol lefel rhybudd sero – bydd y rhain yn helpu i'n diogelu ni i gyd ac yn helpu i gadw Cymru ar agor drwy fisoedd yr hydref a'r gaeaf.

Rwyf wedi ysgrifennu at bartneriaid cymdeithasol ac mae Gweinidogion yn ymgysylltu â sefydliadau a chynrychiolwyr busnes i atgyfnerthu'r pwyntiau canlynol:

- Rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill barhau i gynnal asesiad risg penodol o'r coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau’r risg y bydd pobl yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.

- Rhaid i oedolion a phlant 11 oed a throsodd wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, ac eithrio lleoliadau lletygarwch. Dylai cyflogwyr a busnesau ei gwneud yn glir bod hwn yn ofyniad cyfreithiol.

- Dylai pobl weithio gartref lle bynnag y bo modd i helpu i leihau nifer y cysylltiadau rhwng pobl. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd cyfraddau achosion yn y gymuned yn uchel.

Gall pob cysylltiad rydym yn ei gael â phobl eraill helpu i ledaenu'r feirws pan fo cyfraddau'r feirws mor uchel â hyn. Mae hyn yn gwneud yr holl fesurau eraill y gallwn ni i gyd eu cymryd yn bwysig iawn, gan gynnwys aros gartref os ydym yn sâl; cael prawf os oes gennym symptomau COVID-19, cwrdd â phobl yn yr awyr agored neu mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n dda, cadw pellter cymdeithasol, golchi ein dwylo'n rheolaidd ac osgoi torfeydd.

Byddwn yn rhoi cymorth pellach i benaethiaid i helpu i leihau cylchrediad y feirws mewn ysgolion. Bydd pecyn cymorth yn cael ei gyhoeddi'r wythnos nesaf, a fydd yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i ysgolion i wneud y broses o dynhau a llacio mesurau yn gyflymach ac yn haws. Bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi hefyd ar bwysigrwydd staff a myfyrwyr ysgol uwchradd yn cymryd profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos.

Rydym angen i bawb ledled Cymru wneud ymdrech ar y cyd i helpu i ddod ag achosion o’r coronafeirws o dan reolaeth. Dim ond drwy wneud yr ymdrech hon gyda’n gilydd y gallwn barhau i ddiogelu Cymru a’i chadw ar agor.

# SL(6)070 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i ddarparu y byddant yn dod i ben yn awr ar 25 Chwefror 2022.

Mae'n ofynnol o hyd i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad bob 21 diwrnod o'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion yn y prif Reoliadau, a pha mor gymesur ydynt.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*

*Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus prydlon, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn. Nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol ynglŷn ag asesiad effaith cryno:

*"Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.* Fodd bynnag, paratowyd ac ystyriwyd asesiad effaith cryno fel rhan o'r broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer y coronafeirws er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnaed. Caiff yr asesiad effaith cryno (sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol) ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Tachwedd 2021**

**The Rt. Hon. The Lord Thomas of Cwmgiedd, P.C.**
24 Lincoln's Inn Fields
London, WC2A 3EG
United Kingdom
Clerk: +44 20 7147 7233
Personal mobile: +44 7976 528688
E: lordthomas@arbitratorsinternational.com

1 November 2021

Huw Iranca-Davies, MS
Chair,
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
CARDIFF CF99 1SN

Dear Chair

**Evidence on 22 November**

Thank you for your letter of 26 October inviting me to attend an evidence session of the Legislation, Justice and Constitution Committee on Monday 22 November at 1.30 – 2.30 pm over zoom. That is a time will which work for me and I am therefore happy to confirm I will be able to attend over zoom.

I would be grateful if I could be provided in due course with a list of the questions or areas of questioning you wish to cover.

I also look forward to receiving the zoom link in due course.

With kindest regards,

Thomas of Cwmgiedd

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
Cyn-Gadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

26 Hydref 2021

Annwyl yr Arglwydd Thomas

Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Chweched Senedd.

Fel Pwyllgor, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru wedi argymell y dylai'r Senedd fod â rôl fwy rhagweithiol wrth graffu'n briodol ar weithrediad y system gyfiawnder. I'r perwyl hwnnw, yn y tymor byr, byddwn yn clywed gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddechrau mis Tachwedd, ac rydym yn gobeithio dechrau darn o waith ar hygyrchedd y gyfundrefn gyfiawnder yng Nghymru yn y flwyddyn newydd. Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud gwaith craffu rheolaidd ar swyddogaethau cyfiawnder Llywodraeth Cymru, ac rydym yn gobeithio trefnu'r sesiwn gyntaf yn y gyfres honno ym mis Ionawr 2022, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i glywed gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

Er mwyn llywio ein gwaith craffu ar y materion hyn, hoffem eich gwahodd i'r cyfarfod Pwyllgor a gynhelir ddydd Llun 22 Tachwedd, rhwng 13:30 a 14:30, i drafod y broses o weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Noder ein bod yn rhagweld y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell drwy gyfrwng Zoom.



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fyddwch yn gallu derbyn ein gwahoddiad, a hynny cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru** |
| **DYDDIAD** | **01 Tachwedd 2021** |
| **GAN** | **Mick Antoniw, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Rwy'n ysgrifennu atoch i hysbysu'r Senedd am gydsyniad diweddar i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Ceisiwyd cytundeb i wneud Gorchymyn o dan adran 104 o Ddeddf yr Alban 1998 o ganlyniad i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018.

Mae adran 104 o Ddeddf yr Alban 1998 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan un o Ddeddfau Senedd yr Alban neu oddi tani.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn arfaethedig yn diwygio rheoliad 53 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 i alluogi unigolion i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yn etholiadau seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr heb fod angen ardystio eu cais os ydynt yn cael yr elfen symudedd o'r cymorth anabledd i blant a phobl ifanc ar y gyfradd uwch. Mae'r diwygiadau i Reoliad 53, i'r graddau y maent yn ymwneud â cheisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth mewn maes sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Byddai unigolion cymwys sy'n symud o'r Alban i Gymru neu i Loegr yn parhau i dderbyn cymorth anabledd yn unol â threfn yr Alban am gyfnod o hyd at 13 wythnos o ddyddiad y symud. Effaith y Gorchymyn yw y byddai gan unigolyn sydd wedi symud i Gymru yn ddiweddar ac sy'n dal i dderbyn elfen symudedd o'r cymorth anabledd i blant a phobl ifanc ar y gyfradd uwch sy'n daladwy yn yr Alban hawl o hyd i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, heb fod angen ardystio eu cais, mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru, yn amodol ar fodloni'r holl amodau cofrestru perthnasol.

Byddai'r diwygiad yn rhoi dilyniant i unigolion ac yn caniatáu iddynt gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ar yr un sail ag y byddent wedi bod â hawl iddo pe bai eu cais newydd am fudd-daliadau sy'n daladwy yng Nghymru wedi'i brosesu ar yr adeg berthnasol. Gan y byddai hyn am gyfnod byr ac y byddai'n debygol o gael effaith gyfyngedig, cytunais felly i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â'r Gorchymyn.

Gosodwyd y Gorchymyn yn Senedd y DU ar 28 Hydref 2021.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/2313/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifat@senedd.cymru

2 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm) ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyrr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil).

Hoffwn fynd i'r afael â'r materion yr ydych wedi'u codi wrth ystyried y Memorandwm.

Nid oedd cefndir y Bil wedi'i gynnwys yn y Memorandwm, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Cyflwynwyd y Bil ar 12 Mai heb drafodaeth ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru wrth ei gyflwyno. Roedd y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno hefyd yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Senedd.

Yn dilyn yr etholiad, lluniwyd dull o ymdrin â'r Bil ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am i ddarpariaethau perthnasol i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil. Cefais ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog dros Dwf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Rwy'n nodi eich sylwadau am y ddolen a ddarperir yn y memorandwm; dolen yw hon i'r dudalen ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cam o'r Bil. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd sy'n cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru i'w weld yn:
https://bills.parliament.uk/publications/42504/documents/629

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran gwneud Rheoliadau perthnasol, brynhawn ddoe gosodais y *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021.* Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6pm neithiwr ac maent yn cael yr effaith o atal, o hyn ymlaen, apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgynghori ar y Rheoliadau hyn, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft rhwng 16 Awst a 27 Medi: cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd cynnwys cymal yn y Bil sy'n dirymu'r Rheoliadau hyn. Bwriadaf osod rheoliadau pellach i ddirymu'r Rheoliadau, a fydd yn cyd-fynd ag amseriad y Cydsyniad Brenhinol, pe bai'r Bil yn parhau i fynd rhagddo.

Rwyf yn anfon copi o'r ateb hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Hydref 2021

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd)

Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) yn ein cyfarfod ddydd Llun yr wythnos hon. Mae dau fater pwysig, sy'n codi pwyntiau tryloywder a hygyrchedd, yr hoffem eu codi gyda chi cyn inni ystyried sut y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm.

Yn gyntaf, mae'r Memorandwm yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021 ac mae'n darparu linc i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, nid yw cymal 1 yn y fersiwn honno o'r Bil yn gymwys i Gymru.

Ar 7 Gorffennaf 2021, fe wnaethoch gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu "drwy geisio cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Rating (Coronavirus) and Directors Disqualification (Dissolved Companies) Llywodraeth y DU... a fydd yn gweithredu i ddiystyru apelau Covid-19 ar sail... [newid sylweddol mewn amgylchiadau]. "

Yn dilyn hynny, diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi 2021 i ymestyn cymhwysiad cymal 1 o'r Bil i Gymru. Yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 10 Medi, dywedodd Llywodraeth y DU "The [UK] Government, at the request of the Welsh Government, tabled amendments to the Bill at Commons Report stage to extend application of Clause 1 to non-domestic rating lists compiled for the purposes of business rates in Wales (as well as lists for England)."

Ni chyfeirir at y materion hyn o gwbl yn y Memorandwm, a osodwyd ar 21 Medi 2021, a byddem yn croesawu eich esboniad dros eu hepgor.

Yn ail, yn eich datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf dywedasoch “Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau yng Nghymru a fydd yn cael effaith debyg i’r darpariaethau sydd i’w cynnwys ym Mil y DU, a byddai’r rheoliadau hynny yn gymwys nes y daw Bil y DU yn gyfraith. ” Hyd y gwyddom, ni wnaed y rheoliadau hyn. Rydym wedi nodi bod Gweinidogion y DU wedi gwneud The Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021 ym mis Mawrth, ac y bydd cymal 1(9) o'r Bil yn dirymu'r Rheoliadau os a phan fydd y Bil yn cael ei ddeddfu. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ar y mater hwn, gan gynnwys y sefyllfa bresennol o ran y rheoliadau y cyfeirir atynt yn eich datganiad ysgrifenedig.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 2 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon